# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Ionawr 2026

Amser: 13.30 - 14.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15718

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood AS.

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)691 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a’r Cynllun Diofyn) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)692 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darparu Gwybodaeth am Newidiadau mewn Amgylchiadau) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(6)693 – Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Disgowntiau, Diystyriadau ac Esemptiadau) (Cymru) 2026

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 3.1 SL(6)688 – Cod Trefniadaeth Ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y Cod a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 –trafodwyd eisoes

### 4.1 SL(6)651 – Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Llywodraeth Leol a Thai.

### 4.2 SL(6)682 – Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Adolygu Penderfyniadau) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.7 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)684 – Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan: y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni mewn perthynas â chyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder; Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â chyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach; Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip mewn perthynas â chyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Waith a Phensiynau; a'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â chyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Deddf Amrywogaethau Planhigion (Diwygio) 2026

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 6.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 4) 2025

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 6.4 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Gorchymyn Deddf Seilwaith (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

### 6.5 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig a Darpariaeth Arbed) (Diwygio) 2026

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at y Llywydd Offerynnau Statudol Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni at y Llywydd.

### 7.2 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

**7.3 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch rhifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth nas gwnaed gan offeryn statudol Cymreig**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

**7.4 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

**7.5 Datganiad Ysgrifenedig oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Gweithredu Deddf Diwygio Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024: ffioedd rheoli ystad rhydd-ddaliad**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

**7.6 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgorau ar Fil Diogelwch Adeiladau (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai.

**7.7 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

**7.8 Gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgorau ar y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**7.9 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth)**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

**7.10 Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon: Adroddiad Terfynol Cydweithrediad Amddiffyn a Diogelwch y DU a'r UE ar ôl Brexit**

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Gynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon ar Gydweithrediad Amddiffyn a Diogelwch y DU a'r UE ar ôl Brexit.

**7.11 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Awdurdodau Cymreig Datganoledig) (Diwygio) 2025**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

**7.12 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgorau ar Fil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni.

### 7.13 Gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg: Ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgorau ar y Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

Derbyniwyd y cynnig.

## 9 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes).

Trafododd yr Aelodau Femorandwm Rhif 3 ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) a chytunwyd i ysgrifennu at y Llywydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

## 10 Cytundebau rhyngwladol: Adroddiad drafft

Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad drafft.

## 11 Blaenraglen Waith

Cytunodd yr Aelodau ar y papur Blaenraglen Waith a chytuno i wahodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, i sesiwn dystiolaeth.